Hydref – Rhagfyr 2023

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:


## Hyd - Rhag 2023

| Cyfanswm y rhai a fu drwy'r ddalfa | Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa ar adeg yr Ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa nad oedd ar gael | Nifer y rhai yn y ddalfa a welwyd | Cyfanswm y rhai yn y ddalfa yr ymwelwyd â hwy |
|---|---|---|---|---|---|
| 1,909 | 29 | 81 | 15 | 21 | 45 |


### Ymwelwyr Annibynnol Gweithredol: 14

- Sir Benfro: 4
- Powys: 4
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 3

### Amseru Ymweliadau:



Hydref – Rhagfyr 2023




**Diweddariad am y Cynllun:**

- Bu cynnydd o ran oedi wrth i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd geisio cael mynediad i ddalfeydd penodol. Mewn un ddalfa benodol, digwyddodd hyn ddwywaith mewn wythnos. Fel y nodir yn y llawlyfr ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, rhaid rhoi mynediad i'r ddalfa ar unwaith i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd heblaw bod perygl i'w lles, gan y bydd hyn yn effeithio ar hygrededd y cynllun. Y rhesymau a nodwyd gan y dalfeydd am yr oedi hwn oedd materion sicrhau tystiolaeth, materion staffio a/neu faterion atgyweirio o ran y seiniwr allanol. O ganlyniad i gyfathrebu da rhwng staff y dalfeydd, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a SCHTh, mae'r materion hyn wedi'u datrys yn awr.
- Fel yr amlinellwyd yn y pwynt blaenorol, mae materion staffio'n parhau. Bu heriau sylweddol mewn perthynas â chael aelodau staff eraill i gymryd lle aelodau staff dalfa sydd i ffwrdd yn sâl am gyfnod hir. Mae hyn wedi effeithio ar lefelau staffio swyddogion ymateb, ac nid yw'r ffaith bod rhai swyddogion dalfa sy'n cymryd lle'r aelodau staff hynny sydd i ffwrdd yn sâl am gyfnod hir hefyd wedi adrodd eu bod nhw'n sâl wedi helpu'r sefyllfa. Mae hyn wedi achosi heriau sylweddol o ran cadw rhai dalfeydd ar agor yn ystod mis Rhagfyr.
- Mae darpariaeth gofal iechyd dal yn bryder cyson. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi cael gwybod bod dalfa Aberystwyth ar gau dros dro ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, a bod adnoddau a gwasanaethau ar gael i Aberteifi yn y cyfamser. Rhannodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd eu pryder mewn perthynas â'r gofyniad i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ofalu am ardal eang, gan deithio rhwng Aberteifi, Aberhonddu a'r Drenewydd, ynghyd â'r amodau tywydd gwael a brofwyd yn ystod y gaeaf. Lleddfodd y Prif Arolygydd newydd, Jenna Jones, bryderon o'r fath yn brydlon drwy ddweud y bu cytundeb gyda'r darparwr gofal iechyd, *CRG*, sydd wedi dweud y bydd staff sy'n byw'n agosach i Aberteifi'n gweithio yn nalfa Aberteifi ac y bydd staff sy'n byw'n agosach i ganolbarth Cymru (a fyddai wedi gofalu am ardal Aberystwyth fel arfer) yn gallu gweithio yn Aberhonddu neu'r

Drenewydd. Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd sy'n gysylltiedig â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ar ran hawliau carcharorion i ofal iechyd a meddygol.

- Enghraifft o Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a staff dalfa'n cydweithio'n dda:
Profodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ymweliad heriol gyda charcharor estron nad oedd yn siarad fawr o Saesneg. Yn ystod yr ymweliad, dywedodd y carcharor yr hoffai weld y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd gan ei fod yn dioddef o glefyd y siwgr ac yn teimlo'n sigledig. Gwnaeth y carcharor nifer o geisiadau eraill hefyd, gan gynnwys blanced ychwanegol a phaned o de. Cyflwynwyd yr holl geisiadau hyn i Ringyll y Ddalfa, a gofynnodd yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd iddo pa un ai a oedd y carcharor hwn wedi derbyn copi o'r llyfryn hawliau yn ei famiaith. Dywedodd Rhingyll y Ddalfa bod y carcharor wedi derbyn ei lyfryn hawliau drwy *LanguageLine* (gwasanaeth iaith dros y ffôn) a'i fod hefyd wedi trefnu bod cyfieithydd yn ei famiaith yn bresennol cyn cyfweliad arfaethedig y carcharor.
- Enghraifft lle mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi achosi newid:
Dywedodd carcharor wrth yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd nad oedd wedi gallu cysylltu â'i ferch, a oedd yn ei harddegau. Roedd y ferch ar fin gadael safle'r ysgol a dim ond rhif ffôn partner y ferch oedd gyda'r rhiant/carcharor i gysylltu â hi. Dywedodd y carcharor nad oedd y rhiant arall yn medru gofalu am y plentyn oherwydd cysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd wedi rhoi'r ferch yn eu gofal nhw. Rhoddodd yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wybod i staff y ddalfa am hyn, ac fe wnaethant gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl cadarnhau'r sefyllfa gyda'r carcharor. Gwnaed trefniadau dilynol o ganlyniad i hyn.

**Ymateb yr Heddlu:**

Mewn perthynas â'r arsylwadau uchod, dyma sylwadau'r Prif Arolygydd Jenna Jones, sy'n sylwi ar ran Heddlu Dyfed-Powys:

*"Mae'n galonogol gweld effeithiau cadarnhaol ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd mewn dalfeydd. Gan fy mod i'n newydd i'r swydd, rwyf wedi siarad â nifer o'n staff dalfa am ymweliadau'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a sut maen nhw'n cynorthwyo dalfeydd. Mae'n gysur gwybod bod ein staff dalfa'n teimlo bod Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaethau o fewn y ddalfa.*

*Rydyn ni'n gweithio tuag at wella lefelau staff mewn dalfeydd. Mae Cwrs Rhingylliaid Dalfa'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd cwrs arall yn cychwyn ar 12 Chwefror. Bydd hyn yn darparu 15 Rhingyll Dalfa arall ar draws yr heddlu. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon a disgwyliwn ddiweddariad o'r adolygiad o'r Heddlu sy'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch darpariaethau staff dalfa.*

*Yr ydym hefyd yn cynnal cwrs Swyddogion Tywys a'r Ddalfa, sy'n cychwyn ar 29 Ionawr, a fydd yn gwella nifer ein Swyddogion Tywys a'r Ddalfa yn Hwlffordd, Dafen a'r Drenewydd. Mae 3 swydd Swyddog Tywys a'r Ddalfa hefyd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.*

*Roedd y ddarpariaeth gofal iechyd yn heriol dros gyfnod y Nadolig oherwydd absenoldebau salwch nas rhagwelwyd. Fodd bynnag, yn ystod cyfarfod perfformiad CRG, fe wnaethant nodi effaith hyn ar Heddlu Dyfed-Powys cyfan. Nid yn unig ar ddalfeydd, ond ein swyddogion rheng flaen hefyd. Mae*

*gennym dair nyrs sy'n cael eu fetio ar hyn o bryd er mwyn hybu'r rota cadw, ac mae digwyddiad recriwtio CRG yn Aberystwyth yr wythnos hon er mwyn annog mwy o ddiddordeb yn y swydd. Mae problem genedlaethol o ran recriwtio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer dalfeydd, yn arbennig mewn ardaloedd arfordirol lle nad oes darpariaethau ysbyty.*

*Fe'm calonogwyd wrth ddarllen am y berthynas waith gadarnhaol rhwng Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'n staff dalfa, a'r enghraifft o adeg lle'r arweiniodd ymweliad gan Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd at newid. Rwy'n hyderus bod hyn yn un o sawl enghraifft y gellid fod wedi'i disgrifio.*

*Hoffwn ddiolch i'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd am eu cymorth parhaus. Rwyf wedi adolygu'r holl adroddiadau o'r ymweliadau a anfonwyd, ac mae cael y safbwynt annibynnol hwnnw o'r ddalfa drwy lygaid ffres wir yn datgelu dysgu gwerthfawr a meysydd y mae angen eu newid. Mae hyn wedi fy annog i sefydlu'r Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd gyda'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac eraill gan fy mod i wir yn gweld manteision y lefel hon o graffu ar ein dalfeydd. Felly rwy'n diolch ichi am eich amser a'ch ymdrech ar gyfer sicrhau ein bod ni'n parhau i wneud datblygiadau a gwelliannau yn y maes plismona hwn."*